

## Sut i wneud cais am le mewn ysgol


Bydd angen cyfeiriad e-bost arnoch i gwblhau'r cais.

Ewch i [www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion](http://www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion)

Dewiswch y math o ysgol (Meithrin, Cynradd, Eilradd)

Cliciwch y botwm 'Mewngofnodi i'r system Gwneud Cais am Le mewn Ysgol'

Byddwch yn cyrraedd y dudalen isod.



The screenshot shows the Cardiff Citizen Portal interface. At the top left is the Cardiff logo and 'cardiff.gov.uk'. The main header is 'Citizen Portal'. Below this is a navigation bar with 'Adref', 'Logio i mewn', 'Cofrestru', and 'English/Cymraeg'. The main content area is divided into two columns. The left column contains a registration form with the following elements:

- A message: 'Nid oes cyfrif gennych? Cofrestrwch os gwelwch yn dda [cofrestru](#)'
- A section for 'Cyfeiriad E-bost' with an email input field.
- A section for 'Cyfrinair' with a password input field.
- A blue button labeled 'Mewngofnodi'.
- A link: 'Wedi anghofio eich cyfrinair?'.

The right column contains the following text:

**Croeso i Dderbyniadau Ysgolion Ar-lein** Mae'r system Derbyniadau Ysgolion Ar-lein yn derbyn ceisiadau am lleoedd mewn Ysgolion Meithrin Cymunedol, Ysgolion Cynradd Cymunedol ac Ysgolion Uwchradd Cymunedol, Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi, Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant, Ysgol Uwcheadd yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd.

Bydd angen i chi gofrestru i ddefnyddio'r system hon. Unwaith y byddwch wedi cofrestru gallwch ychwanegu a gweld eich ceisiadau am le mewn ysgol. Cyn i chi ddefnyddio'r system hon cyfeirwch at eich [Llyfryn Derbyn I Ysgolion](#)

Dylid gwneud cais am le mewn ysgolion y tu allan i Sir Caerdydd yn uniongyrchol i'r Awdurdod Lleol dan sylw.

**Dyddiadau Allweddol ar gyfer ceisiadau ysgolion**  
Bydd y gwasanaeth ar-lein ar gael yn ystod y cyfnodau derbyn allweddol ar gyfer ysgolion Meithrin, Cynradd ac Uwchradd yng Nghaerdydd. Dysgwch pa bryd mae angen i chi gofrestru, gwneud cais a pha bryd y caiff y cynigion o ran lleoedd mewn ysgolion eu cyhoeddi.

[Ysgolion Meithrin](#), [Ysgolion Cynradd](#), [Ysgolion Uwchradd](#)

Ni chaiff penderfyniadau eu rhoi dros y ffôn.

Mae'n bwysig eich bod yn gwrthod neu dderbyn eich cynnig erbyn y dyddiad a nodir gyda'ch cynnig o le mewn ysgol.

[Gweld rhestr o ysgolion yng Nghaerdydd](#)

Os hoffech wneud cais yn Saesneg, defnyddiwch y ddolen 'English' uchod.

Os nad ydych wedi defnyddio'r system o'r blaen bydd rhaid i chi gofrestru.

Cliciwch ar Cofrestru, ac ewch i dudalen 2 y canllaw hwn.

Os oes gennych gyfrif, rhwch eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair, cliciwch Mewngofnodi, a neidiwch at dudalen 3 y canllaw hwn.

Defnyddiwch y botymau 'Yn ôl' a 'Nesaf' ar waelod pob adran yn hytrach na botwm 'yn ôl' eich porwr gwe.

Rhaid i dicio'r blwch Diogelu Data i fwrw ymlaen. Am wybodaeth ar hyn, cliciwch y ddolen (yn union uwchben y blwch ticio).

Ticiwch y blwch a chliciwch 'Ymlaen'.

## Diogelu Data

Rhaid i chi roi caniatâd i'r Awdurdod ddefnyddio'ch gwybodaeth at y diben isod. Os nad ydych am roi caniatâd ni allwch gofrestru.

Datganiad: Rwy'n deall y caiff unrhyw wybodaeth bersonol rwy'n ei darparu amdanaf i neu fy mhlentyn ei phrosesu, ei rhannu a'i chadw yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. I gael rhagor o wybodaeth am ofynion diogelu data'r Cyngor cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data, Ystafell 357, Neuadd y Sir, CF10 4UW, e-bost: [diogeludata@caerdydd.gov.uk](mailto:diogeludata@caerdydd.gov.uk). Ceir gwybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol yn ein Polisi Preifatrwydd llawn ar wefan y Cyngor <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>

Ticiwch i gadarnhau eich bod wedi darllen ac yn cytuno ar y datganiad canlynol sy'n benodol i'ch cais, ynghyd â'r wybodaeth sydd ynddo.

[Ymlaen](#)

Llenwch y manylion ar y sgrin 'Cofrestru'.

Pan fyddwch yn clicio'r blwch cyfrinair, byddwch yn gweld y blwch naid sy'n esbonio'r lleiafswm sydd ei angen am gyfrinair cryf (gweler yr enghraifft isod).

I fwrw ymlaen, llenwch bob blwch â seren.

Rhowch o leiaf un rhif ffôn.

Cliciwch ar 'Anfonwch y Cofrestriad'.

## Citizen Portal

Adref

[Logio i mewn](#)
[Cofrestru](#)
[English/Cymraeg](#)

### Cofrestru

Mae angen i chi gofrestru â ni'n gyntaf i wneud cais am wasanaethau ar-lein. Bydd y sgrîn hon yn eich arwain i'r broses.

**Cyfeiriad E-bost \***

**Cadarnhewch E-bost \***

**Cyfrinair \***

**Cadarnhewch Gyfrinair \***

**Cwestiwn Cyfrinachol \*** Favourite Country

**Ateb Cyfrinachol \***

**Teitl \*** Dewiswch

**Enw Cyntaf \***

**Cyfenw \***

**Rhyw \*** Dewiswch ryw

I ddod o hyd i'ch cyfeiriad cartref nodwch eich cod post ac yna cliciwch Dod o Hyd i Gyfeiriad. Oes nad ydych yn ei wybod, edrychwch amdano [yma](#). Os nad yw'ch cyfeiriad wedi'i nodi, cliciwch 'Does gen i ddim cod post' a theipiwch y cyfeiriad cywir yn y blychau.

**Cod Post \***

Nid oes gennyf God Post

Rhowch rif ffôn ble gellir cysylltu â chi yn ystod oriau swyddfa arferol

**Nodwch eich cyfrinair**

- Mae'n rhaid iddo gynnwys o leiaf 10 o nodau a dim mwy na 128 o nodau
- Mae'n rhaid iddo gynnwys o leiaf 2 rhif
- Mae'n rhaid iddo gynnwys o leiaf 1 o nodau llythrennau bach
- Mae'n rhaid iddo gynnwys o leiaf 1 o nodau prif lythrennau
- Mae'n rhaid iddo gynnwys o leiaf 1 nod arbennig
- Rhaid iddo beidio â bod yr un fath â'r enw defnyddiwr

Cofiwch fod y llythrennau bach a'r priflythrennau yn eich cyfrinair yn bwysig.

Unwaith y mae wedi'i gwblhau, bydd cais i chi wirio eich e-bost. Cliciwch ar y ddolen yn y neges a dderbynioch chi gan [derbyniysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:derbyniysgolion@caerdydd.gov.uk) Bydd hyn yn cadarnhau eich cyfrif.

Bydd y sgrin nesaf yn cadarnhau bod eich cofrestrriad yn llwyddiannus.


Cliciwch 'Mewngofnodi' a rhowch eich cyfeiriad e-bost a chyfrinair.

Isod mae'r sgrin gyntaf byddwch yn ei gweld ar ôl mewngofnodi. I ddychwelyd at y sgrin hon ar unrhyw adeg, cliciwch 'Cartref'.

Os fyddwch yn gadael y sgrin am gyfnod, ceuwch eich allgofnodi, a bydd rhaid i chi fewngofnodi eto i ail-wneud eich cais.

## Citizen Portal

 Adref

 Fy Nghyfrif

Allgofnodi

 English/Cymraeg ▾

Croeso i'r Porth Dinasyddion



Lleoedd Ysgol



Fy Nheulu



Negeseuon

Cliciwch ar yr eicon 'Fy Nheulu'. Oddi yma, gallwch greu cofnod newydd i'ch plentyn.



## Citizen Portal

🏠 Adref

👤 Fy Nghyfrif

Allgofnodi

🌐 English/Cymraeg ▾

### 👤 Fy Nheulu

Cliciwch ar blentyn i olygu eu manylion.



Enghraifft  
Rhiant

CF10 4UW

Newid mewn Amgylchiadau

+ Ychwanegu Plentyn

Nôl

Ynglyn â

Cysylltwch â Ni

Telerau ac Amodau

Hysbysiad Preifatrwydd

Polisi Cwcis

© Capita 2012-2018 All rights reserved.  
Twitter Bootstrap licensed under the [Apache License v2.0](#)

Cliciwch ar 'Ychwanegu Plentyn' a chwblhewch y manylion ar y sgrin nesaf. Fel o'r blaen, rhaid i chi gwblhau pob rhan â seren.

Os yw'r plentyn yr ydych yn gwneud cais amdano hefyd yn byw yn y cyfeiriad hwn, bydd y cyfeiriad a roesoch ar gyfer manylion eich cyfrif yn cael ei gynnig.

Cliciwch ar y cyfeiriad hwn i'w ddethol ac yna cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu Plentyn' glas.

Os ydych am ddefnyddio cyfeiriad gwahanol, cliciwch ar "Cliciwch i ychwanegu cyfeiriad newydd" ac ychwanegwch un arall, yna cliciwch ar "Ychwanegu Plentyn".

Os oes angen ychwanegu plentyn arall (e.e. efeilliaid), ailadroddwch y cam diwethaf. Unwaith i chi ychwanegu'r holl blant sydd angen, dychwelyd at y dudalen 'Cartref' a chliciwch ar yr eicon 'Lleoedd Ysgolion' i ddechrau eich cais.

## Lleoedd Ysgol

**DERBYN I ADDYSG FEITHRIN: BLWYDDYN YSGOL 2018/19:** I blant a aned rhwng 1 Medi 2015 a 31 Mawrth 2016: bydd canlyniadau'r ceisiadau ar gael o ddydd Llun 1 Hydref 2018

**TROSGLWYDDO I ADDYSG UWCHRADD: MEDI 2019:** Bydd y broses ymgeisio ar-lein yn agor ddydd Llun 24 Medi 2018 tan ddydd Llun 19 Tachwedd 2018. Bydd canlyniadau'r ceisiadau ar gael o ddydd Gwener 1 Mawrth 2019.

**DERBYN I ADDYSG GYNRADD: MEDI 2019:** Bydd y broses ymgeisio ar-lein yn agor ddydd Llun 12 Tachwedd 2018 tan ddydd Llun 7 Ionawr 2019. Bydd canlyniadau'r ceisiadau ar gael o ddydd Mawrth 16 Ebrill 2019.

## Gwneud cais newydd

Gallu gwneud cais nawr



**Enw Cyntaf**  
Cyfenw

Dyddiad Geni: 01-Oct-2007

Gallwch gyflawni'r gweithredoedd canlynol:


- [Dechreuwch gais newydd](#)

Yn ol

Ychwanegu Plentyn

Ar y sgrin 'Lleoedd Ysgolion', bydd gan bob cofnod plentyn yr ydych wedi eu creu, deilsen glas ar wahân. Bydd y wybodaeth ar y deilsen yn newid yn ddibynnol ar statws eich cais, ac ar gamau gwahanol drwy'r broses dderbyn. Efallai y byddwch am ddychwelyd yma i wneud newidiadau i'ch cais, neu, ar ôl y dyddiad cynnig, i wirio canlyniad eich cais.

Cliciwch ar 'Dechrau cais newydd'.

 Derbyniadau

## Dewiswch Grwp Trosglwyddo

Ar gyfer dyddiad geni eich plentyn, gallwch ymgeisio am y lleoedd ysgol canlynol

Derbyn i Ysgolion Uwchradd ym  
mis Medi 2019

NŌI

Ar y sgrin nesaf hon, dewiswch eich 'Grŵp Trosglwyddo'. Y 'Grŵp Trosglwyddo' yw ein henw ni ar fath o gais. Mae'r sgrin hon ond yn arddangos Grwpiau Trosglwyddo sydd ar gael i'r plentyn, ar sail eu dyddiad geni. Fel arfer dim ond un sydd.

Cliciwch y blwch sy'n disgrifio'r math o gais yr hoffech wneud.

Ar y sgriniau canlynol byddwch yn cael sawl cwestiwn am eich cais. Ticiwch unrhyw ddatganiad sy'n berthnasol i chi, fel arall gadewch yn wag. Defnyddiwch y botymau 'Yn ôl' a 'Nesaf' ar waelod pob adran yn hytrach na botwm 'yn ôl' eich porwr gwe.

🏠 Adref
Fy Nghyfrif
Allgofnodi
🇬🇧 English/Cymraeg ▾

📄 Derbyniadau

### Manylion y Plentyn

**Mae gan fy mhientyn Ddatganiad o Angen Addysgol neu Gynllun Addysg, Iechyd a Gofal.** Rhaid cyflwyno copi o'r ddogfen. Rhaid i'r ddogfen nodi manylion ysgol a enwir.

**Mae fy mhientyn yn Derbyn Gofal/Arferai Dderbyn Gofal gan Awdurdod Lleol** Ydy'r plentyn ar hyn o bryd neu wedi bod yng ngofal Awdurdod Lleol? (e.e. gofalu neu faethu). Mae'r categori hwn hefyd yn berthnasol os yw'r plentyn ers hynny wedi'i fabwysiadu neu'n destun gorchymyn preswyllo neu warchodaeth arbennig. **Rhaid i chi gyflwyno llythyr neu e-bost gan Weithiwr Cymdeithasol y plentyn neu Orchymyn mabwysiadu/gwarchodaeth arbennig ac ati.**

Dewiswch Awdurdod Gofal
▾

Ydy eich plentyn yn un o efeilliaid neu dripledî?

### Cyfeirnod Treth y Cyngor

Nodwch gyfeirnod treth cyngor yr eiddo lle bydd eich plentyn yn byw pan fydd yn dechrau yn ei ysgol newydd (os yw'n hysbys).

📄

Nôl
Nesaf

Ar y sgrin uchod, darllenwch y datganiadau a thiciwch hwy os ydynt yn berthnasol i'ch plentyn. Os yw eich plentyn yn Derbyn Gofal/Wedi Derbyn Gofal:

- nodwch yr Awdurdod Gofal
- rhowch eich rhif cyfeirnod Treth Gyngor (mae hwn ar eich Datganiad Treth Gyngor neu ohebiaeth gysylltiedig). Bydd hyn yn ein helpu i gadarnhau eich cyfeiriad heb orfod cysylltu â chi yn ddiweddarach am dystiolaeth bellach.

Cliciwch 'Nesaf'

Adref Fy Nghyfrif Allgofnodi English/Cymraeg

Derbyniadau

### Manylion Cyfeiriad

Rydych eisoes wedi nodi mai [REDACTED] yw cyfeiriad presennol Enw Cyntaf. Os dim hyn yw cyfeiriad presennol Enw Cyntaf, diweddarwch hyn drwy [Fy Nheulu](#). Yna, ewch yn ôl i Lleoedd Ysgol a dewiswch 'Parhewch â'r cais'. Mae'n bwysig iawn ein bod ni'n gwybod beth yw cyfeiriad presennol Enw Cyntaf.

### Teuluoedd Lluoedd Arfog sy'n Dychwelyd yn Unig

Mae'r cwestiwn nesaf ar gyfer aelodau'r lluoedd arfog (e.e. Y Fyddin) a theuluoedd Gweision y Goron (e.e. Diplomyddion) yn unig. Os nad yw hyn yn berthnasol i chi, anwybyddwch y cwestiwn hwn a cliciwch ar y botwm NESAF isod.

Ydy Enw Cyntaf yn aelod o deulu Lluoedd Arfog neu Weision y Goron, sydd yn dychwelyd/symud i'r cyfeiriad er mwyn ymgymryd â'u dyletswyddau?

Dyddiad Symud

Rhowch eich cod post newydd ac yna cliciwch ar 'Cael hyd i Gyfeiriad'. Os nad yw eich cyfeiriad wedi'i restru, pwyswch 'Nodi'r Cyfeiriad â Llaw' ('Enter Address Manually') a thepiwch y cyfeiriad cywir yn y blychau a ddarperir. Os nad oes gennych God Post dewiswch 'Nid oes gennych God Post' ('I don't have a Postcode')

Cod Post

[Canfyddwch Gyfeiriad](#)  
Nid oes gennych God Post

[NŌI](#) [Nesaf](#)

Os ydych yn deulu yn y Lluoedd Arfog neu'n Weision y Goron (e.e. y gwasanaeth milwrol neu ddiplomyddol) ac mewn cyfeiriad gwahanol cyn dechrau tymor Medi 2019, rhowch y cyfeiriad yma.

Os nad yw hyn yn berthnasol i chi, cliciwch 'Nesaf'.



Adref
Fy Nghyfrif
Allgofnodi
English/Cymraeg

Derbyniadau

## Ysgol Bresennol Y Plentyn

**Enw'r Ysgol**

**Cyfeiriad**

Os taw'r uchod yw'r ysgol y mae Enw Cyntaf yn ei mynychu ar hyn o bryd, neu os ydych wedi nodi rhai manylion isod, dewiswch y botwm 'Nesaf' i barhau. Os na, dewiswch 'Newid yr ysgol bresennol' i chwilio am yr ysgol gywir.

[Newid yr ysgol bresennol](#)

Os byddwch wedi chwilio, ond dydych chi ddim yn gallu dod o hyd i'r ysgol, dwedwch ymhle mae eich plentyn yn cael ei addysg ar hyn o bryd drwy deipio'r enw yn y blwch isod.

**Yn cael ei addysgu ar hyn o bryd yn:**

[Nŏi](#)
[Nesaf](#)

Mae 'Ysgol Gyfredol eich Plentyn' fel arfer wedi'i lenwi'n barod ar sail gwybodaeth y rhoesoch pan luniocch chi gofnod eich plentyn. Gallwch ei newid yma os dymunwch. Pan yn hapus, cliciwch 'Nesaf'.

## Chwiliad Dewis Ysgol

### Derbyn i Addysg Uwchradd 2019

Gallwch ymgeisio am hyd at bump (5) o Ddewisiadau Ysgol

Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn rhestru 5 ysgol wahanol, gan gynnwys ysgol eich dalgylch.

Os ydych yn ymgeisio am addysg Gymraeg yn unig, sylwch mai dim ond tair (3) ysgol gymunedol sydd. Does dim rhaid i chi ymgeisio am 5 ysgol.

Ni fydd ymgeisio am un ysgol yn unig yn cynyddu'r tebygolrwydd o gael cynnig lle.

Cofiwch ail-gyflwyno'ch cais os ydych yn gwneud unrhyw newidiadau.

**Cofiwch, pan fyddwch yn defnyddio DOD O HYD I YSGOL mae'r chwiliad yn seiliedig ar god post yr ysgol.**

## Chwilio am Ysgol

I ddod o hyd i'r ysgol rydych yn chwilio amdani, chwiliwch drwy nodi cod post, awdurdod lleol, enw ysgol neu gyfuniad o'r rhain, a chlicio ar Chwilio.

Cod post ysgol

Ysgolion yn

Enw Ysgol (awgrym: mae enwau rhannol yn rhoi canlyniadau gwell)

Chwilio

Nôl

Darllenwch yr adran ar y dudalen hon sy'n disgrifio'r nifer o geisiadau a argymhellir ar gyfer y math yma o gais.

Dywedwch pa ysgolion yr hoffech wneud cais amdanynt. Mae'n gyflymach os ychwanegwch hwy yn ôl eich dewis. Dewch o hyd i'ch ysgol drwy deipio llythrennau cyntaf enw'r ysgol i'r blwch 'Enw'r Ysgol' a chlicio 'chwilio'. Wrth chwilio heb ychwanegu testun, bydd rhestr lawn o bob ysgol yn ymddangos.

I ddewis eich ysgol, cliciwch ar ei henw o'r rhestr sy'n dilyn.

Bydd y sgriniau nesaf yn gofyn cwestiynau yn benodol i'r dewis hwn.

Adref Fy Nghyfrif Allgofnodi English/Cymraeg

Derbyniadau

### Rhesymau am eich Dewis: Brawd neu chwaer

Er mwyn cefnogi eich cais am le yn **Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern** gallwch ddewis rhesymau priodol ar y tudalennau nesaf.

**Mae gan fy mhlentyn frawd neu chwaer sy'n mynd i'r ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol 2019/20** (h.y. ym mlwyddyn 8-11 o fis Medi 2019). Cyfeiria hyn at frawd/chwaer hyn sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Gall gynnwys hanner brawd/chwaer, llysfrawd/-chwaer neu blant wedi'u mabwysiadu neu faethu

Nôl Nesaf

Ticiwch os yw'r datganiad hwn yn berthnasol.

Cliciwch 'Nesaf' Bydd rhaid i chi roi manylion am y brawd neu'r chwaer os symudwch ymlaen heb dicio'r blwch hwn.

Adref Fy Nghyfrif Allgofnodi English/Cymraeg

Derbyniadau

### Rhesymau am eich Dewis

Er mwyn cefnogi eich cais am le yn **Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern** gallwch ddewis y rhesymau priodol isod. Cewch gyfle i ddweud wrthon ni yn eich geiriau eich hun am unrhyw resymau ychwanegol neu fwy am eich rhesymau, neu un o'r camau nesaf

**Mae fy mhlentyn wedi Resymau Meddygol oeu Gymdeithasol Cymhellol** Rhaid cyflwyno llythyr neu e-bost â'r ffurflen hon gan feddyg ymgynghorol, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol tebyg. Rhaid iddo nodi rhesymau manwl dros dderbyn disgybl i ysgol benodol er mwyn iddo gael ei ystyried dan y maen prawf hwn.

Nôl Nesaf

Ticiwch os yw'r datganiad hwn yn berthnasol.

Cliciwch 'Nesaf'

Adref Fy Nghyfrif Allgofnodi English/Cymraeg

Derbyniadau

### Rhesymau dros y/eich dewis (parhad)

Mae gan fy mhlentyn frawd/chwaer hyn yn yr ysgol, a phan ddechreuon nhw dyna oedd ysgol y dalgylch ar gyfer ein cyfeiriad

Nôl Nesaf

Ticiwch os yw'r datganiad hwn yn berthnasol.

Cliciwch 'Nesaf'

Adref Fy Nghyfrif Allgofnodi English/Cymraeg

Derbyniadau

### Gwybodaeth Ychwanegol

Gallwch roi unrhyw resymau eraill i ni i gefnogi eich cais. Os ydych wedi dewis **Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern** am resymau cymdeithasol neu feddygol dylech roi mwy o fanylion isod. Efallai byddwn yn cysylltu â chi i drafod hyn ymhellach.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae terfyn o 3000 o nodau ar gyfer mynegi eich rhesymau eraill. **3000** yn weddill...

Nôl Nesaf

Os ydych am ychwanegu datganiad cefnogol neu debyg, gallwch wneud hyn ar y sgrin hon. Byddwch yn ymwybodol bod yr holl fanylion sy'n berthnasol i'ch cais yn cael eu gofyn rhywle arall. Efallai nad ystyrir unrhyw destun a rowch yma.

Rhaid i chi uwchlwytho unrhyw dystiolaeth gefnogol ar wahân. Rhaid i bob dystiolaeth ddod o ffynonellau swyddogol (e.e. ymgynghorydd ysbyty, llys teuluol, tystysgrif mabwysiadu ac ati)

Adref Fy Nghyfrif Allgofnodi English/Cymraeg

Derbyniadau

## Eich Dewisiadau Ysgolion

Rydych wedi dewis yr ysgolion isod. Gallwch ddewis hyd at 5 ysgol a gallwch newid eich detholiad tan 19/11/2018 23:59

Defnyddiwch y saethau i sgorio'ch ysgolion o ddewis; rhaid i'r ysgol yr ydych yn ei dewis uwchben pob ysgol arall fod ar y brig gyda sgôr o 1

| Dewis Ysgol | Enw'r Ysgol                   | Aildrefnu  |
|-------------|-------------------------------|--|
| 1           | Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern | <input type="button" value="Golygu"/> <input type="button" value="Dileu"/> |

Mae'r sgrin hon yn rhoi rhestr gyfredol o'ch dewisiadau wrth i chi eu hychwanegu. Pan fyddwch wedi ychwanegu eich dewis cyntaf, cliciwch 'Ychwanegu ysgol newydd o ddewis'.

Adref Fy Nghyfrif Allgofnodi English/Cymraeg

Derbyniadau

## Eich Dewisiadau Ysgolion

Rydych wedi dewis yr ysgolion isod. Gallwch ddewis hyd at 5 ysgol a gallwch newid eich detholiad tan 19/11/2018 23:59

Defnyddiwch y saethau i sgorio'ch ysgolion o ddewis; rhaid i'r ysgol yr ydych yn ei dewis uwchben pob ysgol arall fod ar y brig gyda sgôr o 1

| Dewis Ysgol | Enw'r Ysgol                   | Aildrefnu  |
|-------------|-------------------------------|--|
| 1           | Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern | <input type="button" value="Golygu"/> <input type="button" value="Dileu"/> |
| 2           | Fitzalan High School          | <input type="button" value="Golygu"/> <input type="button" value="Dileu"/> |
| 3           | St Teilo's C.W High School    | <input type="button" value="Golygu"/> <input type="button" value="Dileu"/> |
| 4           | Radyr Comprehensive School    | <input type="button" value="Golygu"/> <input type="button" value="Dileu"/> |
| 5           | Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf   | <input type="button" value="Golygu"/> <input type="button" value="Dileu"/> |

Unwaith i chi ychwanegu mwy nag un dewis, gallwch ail-drefnu'r dewisiadau gyda'r saethau yn y golofn ail-drefnu. Gallwch newid trefn eich dewisiadau drwy glicio ar y botwm 'Golygu' ar res yr ysgol honno.

Pan ydych yn hapus gyda'r drefn, cliciwch 'Nesaf'.

Argymhellwn 5 dewis ar gyfer ceisiadau uwchradd a 3 ar gyfer cynradd. Argymhellwn hefyd eich bod yn cynnwys yr ysgol yn eich dalgylch fel un o'ch dewisiadau.

Adref
Fy Nghyfrif
Allgofnodi
English/Cymraeg

Derbyniadau

### Tystiolaeth Ategol

A fydddech gystal ag uwchlwytho unrhyw dystiolaeth berthnasol i ategu eich cais. Gallai hyn gynnwys: Gorchymyn Mabwysiadu, llythyr gan Ymgynghorydd neu Weithiwr Cymdeithasol, Datganiad o Anghenion Arbennig ac ati.

Gallwch uwchlwytho dogfennau tan y dyddiad cau. Gallwch hefyd fewngofnodi i'r cais ar ffôn clyfar neu lechen ac uwchlwytho dogfennau perthnasol a gedwir yn y dyfeisiau hyn. Cofiwch ail-gyflwyno'ch cais.

Dewis Ffeiliau ...

Ffeiliau a ddewiswyd:

Math o Ffeil (au): docx, pdf, jpeg, jpg, doc

Gellir llwytho i fyny ffeiliau uchafswm 5. Caniateir maint ffeiliau Uchafswm 5 MB fesul feil

Nôl
Nesaf

Yma gallwch uwchlwytho dogfennau cefnogol. Mae'r dudalen yn disgrifio pa fath o wybodaeth allai fod yn briodol.

Os ydych am ychwanegu dogfennau, cliciwch ar 'Dewis Ffeiliau...'

Ar eich cyfrifiadur, dewch o hyd i'r ffeiliau i uwchlwytho a chliciwch 'Nesaf'.

Gallwch anfon ffotograffau o'r dogfennau ar eich ffôn clyfar neu lechen. Sicrhewch bod unrhyw ffotograffau yn ddigon eglur i fedru darllen y testun.

Gallwch ychwanegu ffotograffau yn ddiweddarach, ond rhaid i hyn fod cyn y terfyn amser.

### Cynnig o Le Ysgol

Os hoffech gael eich cynnig drwy lythyr drwy'r post, dad-diciwch y blwch isod.

Bydd eich cynnig hefyd ar gael ar y wefan hon 01/03/2019

**Hoffwn dderbyn fy nghynnig o le ysgol drwy e-bost**

**Rhybudd:** Weithiau mae e-byst yn glanio yn eich ffolder Sothach neu Sbam. Os nad ydych yn derbyn eich e-bost ar y dyddiad uchod gwiriwch y ffolderi yna'n gyntaf.

### Rhagolwg o'ch Cais

I weld fersiwn hwylus i'w argraffu o'ch cais heb ei gyflwyno, cliciwch y botwm 'Rhagolwg'.

[Rhagolwg](#)

### Cyflwynwch Eich Cais

Unwaith y byddwch yn 'Cyflwyno' eich cais gallwch wneud newidiadau o hyd tan 19/11/2018 23:59

Os nad ydych yn barod i gyflwyno eich cais nawr, gallwch glicio 'Dychwelyd yn Ddiweddarach' a gallwch fynd yn ôl at eich cais yn ddiweddarach i wneud newidiadau. **RHAID I CHI GYFLWYNO'R CAIS** cyn 19/11/2018 23:59

**Rwyf yn datgan fy mod wedi gwirio'r wybodaeth a roddir yn y cais hwn ac rwyf yn credu ei bod yn gywir. Rwyf yn datgan fy mod wedi darllen y telerau ac amodau a roddir uchod ac rwyf yn cytuno â nhw.**

[Dychwelwch yn Ddiweddarach](#)

[Cyflwyno Nawr](#)

[Nôl](#)

Ar y sgrin derfynol hon gallwch:

- ddewis sut fyddwn yn cysylltu â chi. Bydd canlyniad y ceisiadau i gyd ar gael ar y sgrin 'Lleoedd Ysgol' ar y Porth Dinesydd. Yn ychwanegol i hyn byddwn yn anfon e-bost atoch. Os na fyddwch yn ticio'r dewis hwn, cewch lythyr yn lle.
- cliciwch ar 'Rhagweld eich Cais' i weld crynodeb ohono ar un dudalen mewn tab newydd. Mae modd gwneud hyn hefyd ar ôl i chi wneud eich cais.

I orffen, pan fyddwch wedi darllen a deall y wybodaeth ar y dudalen hon, ticiwch y blwch olaf a chliciwch 'Anfonwch Nawr'.

Cewch e-bost yn cadarnhau.

Gallwch olygu'r cais hwn i fyny at y dyddiad cau. Ond os wnewch hynny, gwnewch yn siŵr eich bod yn dychwelyd i'r dudalen hon a'i hanfon eto.

Os oes gennych ragor o gwestiynau, ffoniwch 029 20872088